**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD GWENER, 14 MAI 2021**

**BWRDD ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY'R CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.Wingrave a/ac P.A.Rees

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

S.Brennan, P. Jackson, K.Davies, N.Headon a/ac N.Jones

**Gwahoddedigion Craffu:**

R.Taylor

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Wingrave yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyir cofnodion cyfarfod 16 Ebrill, 2021.

## 4. CYNLLUN PEILOT ARFAETHEDIG PARCIO A THEITHIO GWLAD Y SGYDAU

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd caiff y gwaith o gyflwyno prosiect Peilot Parcio a Theithio Gwledig Gwlad y Sgydau, i'w gynnal ar ddydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau Banc yn ystod gwyliau haf yr ysgol 2021, ei gymeradwyo.

**Rhesymau dros y penderfyniad:**

Drwy gyflwyno'r prosiect peilot hwn byddem yn gallu cadarnhau a yw'r mesurau hyn yn cynnig cyfleoedd sylweddol i liniaru pwysau parcio ym mhentref Pontneddfechan. Mae posibilrwydd y gallai lliniaru'r pwysau hyn wella ansawdd bywyd preswylwyr lleol

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 5. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU I WASANAETH ADFYWIO'R CYNGOR FEL RHAN O'I AMCANION LLES

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, nodi'r adroddiad.

## 6. BLAENRAGLEN WAITH 2021-2022

**Penderfyniad:**

Nodi'r Blaenraglen Waith

## 7. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu

gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

8. **CYNLLUN CAM 2 FFORDD DDOSBARTHU YMYLOL PORT TALBOT - TALU IAWNDAL O DAN DDARPARIAETHAU RHAN 1 O DDEDDF IAWNDAL TIR 1971 (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFFAU 12 AC 14)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, cymeradwyir talu'r swm iawndal i'r parti yr effeithir arno fel y'i nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Talu iawndal o ganlyniad i gynllun
Cam 2 Ffordd Ddosbarthu Ymylol Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**